

# Mae’r daflen ffeithiau hon yn ymwneud â: Yr Ombwdsmon



## Beth mae’r Ombwdsmon yn ei wneud?



Mae’r Ombwdsmon yn annibynnol.



Mae’r Ombwdsmon yn bennaeth tîm.

Maent yn edrych ar gwynion yn deg.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae’r cwynion yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus megis:

- Iechyd,
- Tai
- Llywodraeth.



## Sut mae'r Ombwdsmon yn cael y swydd?



Mae'r Ombwdsmon yn cael ei ddewis gan y Senedd.



Mae'r Brenin yn rhoi'r swydd i'r Ombwdsmon.
Gall ef hefyd ei dynnu os yw'r Senedd yn dweud bod angen i hynny ddigwydd.




## Sut caiff yr Ombwdsmon ei ariannu?



Mae'r Senedd yn talu am waith yr Ombwdsmon.



## I bwy mae'r Ombwdsmon yn adrodd?



Nid oes gan yr Ombwdsmon bennaeth.



Mae grŵp o bobl annibynnol yn rhoi cyngor i'r Ombwdsmon.



Maent yn sicrhau bod gwasanaeth yr Ombwdsmon o'r safon orau.

Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU



## Sut mae'r Ombwdsmon yn gweithio?




Mae cyfraith o'r enw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru



Mae'r gyfraith yn dweud y bydd tîm yr Ombwdsmon yn penderfynu ar waith ac adroddiadau'r Ombwdsmon.



Mae'r Ombwdsmon yn gwneud rhywfaint o'r gwaith. Mae gwaith arall yn cael ei wneud gan y tîm.



Os yw aelod o'r tîm wedi gweithio ar eich cwyn, gallwch ofyn i'r Ombwdsmon edrych ar benderfyniad yn ei gylch.



Gallwch wneud hyn os:

- oes ffeithiau newydd.
- na edrychwyd ar yr hen ffeithiau yn iawn.



Bydd uwch aelod o staff yn edrych arno.



Os ydych yn anhapus â phenderfyniad yr Ombwdsmon, gallwch gael cyngor cyfreithiol ynghylch mynd i'r llys.



Os ydych yn dal yn ansicr os gall yr Ombwdsmon helpu, cysylltwch â ni.

## Sut i gysylltu â'r Ombwdsmon



0300 790 0203




holwch@ombwdsmon.cymru

www.ombwdsmon.cymru

@OmbudsmanWales



Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Paratowyd y daflen hawdd ei ddarllen hon gan Barod CIC gan ddefnyddio Photosymbols.